



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



**GWASANAETH MEWNBLANIADAU
CLYWEDOL DE CYMRU**
SOUTH WALES AUDITORY
IMPLANT SERVICE

Gwybodaeth am Fewnblaniad Cochlear: Y Weithdrefn Asesu



Holiadur Bodlonrwydd Gwasanaeth
Mewnblaniadau Clywedol De Cymru

Gwybodaeth Gyswilt yr Adran

Ffôn: 029 218 43179

Ffôn Symudol: 07805670359 (negeseuon testun yn unig)

E-bost: Implantable.devices.CAV@wales.nhs.uk

Cyfeiriad: Gwasanaeth Mewnblaniadau Clywedol De Cymru, Clinig 7, Adran Cleifion Allanol, Ysbyty Athrofaol Cymru, Ffordd Parc y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 4XW

Sganiwch y codau QR isod i gael mynediad at ein gwefan gwasanaeth mewnbhaniadau clywedol ac adnoddau eraill.

Gwasanaeth Mewnblaniadau
Clywedol De Cymru



Grŵp Mewnblaniadau
Cochlear Prydain




Beth yw mewnblaniad cochlear?

Cynigir mewnblaniadau cochlear i bobl â “byddardod difrifol i ddwys [a] ddiffinnir fel clywed synau sy’n uwch na 80 dB HL yn unig (trothwy awdiometreg tôn bur sy’n hafal i neu’n fwy na 80 dB HL) ar 2 amledd neu fwy (500 Hz, 1,000 Hz, 2,000 Hz, 3,000 Hz a 4,000 Hz) yn ddwyochrog heb gymhorthion clyw acwstig.” (Canllawiau NICE, 2019).

Mae mewnblaniad cochlear yn gweithio trwy newid sain yn signalau trydanol ac mae ganddo ddwy ran. Gelwir y ddwy ran yn brosesydd a mewnblaniad. Mae’r prosesydd yn cael ei wisgo ar y glust fel cymorth clyw ac mae ganddo goil plastig a all aros ar y pen. Mae gan y mewnblaniad goil hefyd ac mae’n cael ei osod o dan y croen ynghyd â chebl hyblyg sy’n mynd y tu mewn i’r cochlear. Mae’r ddau goil yn aros ar y pen gan ddefnyddio magnetau.

Sut mae mewnblaniad cochlear yn gweithio?



1. Mae synau'n cael eu codi gan feicroffon ar y prosesydd sy'n newid y sain yn signalau trydanol.
2. Anfonir y signalau i'r coil ar y pen sy'n teithio ar draws y croen drwy donnau radio.
3. Mae'r signal yn cyrraedd y coil o dan y croen ac yn cael ei anfon i'r mewnblaniad.
4. Mae'r signalau trydanol hyn yn cael eu danfon i wahanol bwyntiau o'r mewnblaniad o'r enw electrodau.
5. Mae'r electrodau'n cyffroi'r ffibrau nerfau yn y cochlear sydd wedyn yn anfon yr wybodaeth i'r ymennydd i ddeall sain.

Dim ond pan gaiff ei wisgo y mae mewnblaniad cochlear yn eich helpu i glywed synau. Nid yw'n rhoi clyw arferol. Pan nad yw'r prosesydd yn cael ei wisgo, ni fyddwch yn gallu clywed dim o'r glust sydd wedi'i mewnblannu.

Nid oes unrhyw warantau y bydd mewnbaniad cochlear yn gwella'ch galluoedd clywed gan fod cynnydd a disgwyliadau pawb yn wahanol.

Gall canlyniadau ddibynnu ar y canlynol:

- Hyd y byddardod
- Rheswm dros y byddardod
- Parhau i ddefnyddio cymhorthion clyw hyd yn oed os nad ydyn nhw'n ymddangos o fudd i chi
- Mynychu'r clinig ar gyfer pob apwyntiad ar gyfer tiwnio ac adsefydlu
- Defnydd parhaus o'r prosesydd a'r gallu a'r parodrwydd i ddilyn cyfarwyddiadau gwaith cartref
- Disgwyliadau ymgeiswyr

Pwy all gael mewnbaniad cochlear?

- Babanod sydd wedi cael eu geni'n fyddar
- Plant sy'n colli eu clyw neu sydd wedi colli llawer o'u clyw.
- Oedolion sydd wedi colli eu clyw i'r graddau nad yw cymhorthion clyw yn ddefnyddiol mwyach
- Fel arfer, dim ond UN mewnbaniad y mae oedolion yn ei gael. Gellir rhoi dau fewnbaniad yn dibynnu ar olwg yr oedolyn.

Gyda phwy ydw i'n dod i siarad?

Byddwch yn cael gwahoddiad i ddod i siarad â'r Tîm, sy'n cynnwys meddygon, awdiolegwyr, therapydd clyw ac adsefydlwyr. Mae pob gweithiwr proffesiynol yn chwarae rhan unigryw yn y broses asesu. Bydd cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych am fewnblaniadau cochlear.

Sut mae'r tîm mewnblaniad cochlear yn penderfynu a allaf gael mewnblaniad cochlear?

Bydd y tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys awdiolegydd, adsefydlwyr a meddygon ar y cyd â chi a'ch rhwydwaith cymorth yn penderfynu a ydych chi'n addas ar gyfer mewnblaniad cochlear. Rydym yn dilyn canllawiau NICE i benderfynu a yw cymorth clyw yn ddigon i'ch helpu i glywed synau neu a fydd angen mewnblaniad cochlear.

Os bydd y tîm yn penderfynu nad yw mewnblaniad cochlear yn addas i chi, yna cewch gyngor i barhau i ddefnyddio cymhorthion clyw. Os nad ydych chi'n addas ar gyfer mewnblaniad cochlear, bydd yr adsefydlydd yn rhoi mynediad i chi at wasanaethau priodol i'ch helpu i reoli eich colled clyw.

Os bydd y tîm yn penderfynu eich bod yn addas ar gyfer mewnblaniad cochlear, yna cynigir hyn i chi pan ddewch yn ôl i'r clinig. Eglurir y broses hon ar dudalen 8-9.

Y Tîm Mewnblaniadau Cochlear

Mae mewnblaniad cochlear yn gofyn am amrywiaeth eang o sgiliau, felly mae'r tîm yn cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol. Rydym yn gweithio'n agos fel tîm a chyda gweithwyr proffesiynol lleol, gan gydnabod hefyd mai'r rhan bwysicaf o'r tîm yw'r ymgeisydd a'r teulu eu hunain.

Mr Graham Roblin - Llawfeddyg Ymgynghorol ENT

Mr Andrew Hall - Llawfeddyg Ymgynghorol ENT

Mr Rhodri Jones - Llawfeddyg Ymgynghorol ENT

Dr Deepak Rajenderkumar

Meddyg Ymgynghorol Meddygaeth Awdiofestibwlar

Heidi Williams

Arweinydd Clinigol, Cydlynnydd a Gwyddonydd Clinigol y Gwasanaeth Mewnblaniadau i Oedolion

Lorraine Lewis - Cyfarwyddwr Awdioleg

Rhian Hughes - Prif Awdiolegydd

Eirwen Jones - Prif Awdiolegydd

Steven Jacques - Prif Awdiolegydd

Vanessa Sadler - Therapydd Iaith a Lleferydd

Gemma Saxelby - Adsefydlydd/Prif Awdiolegydd

Hannah Winters - Adsefydlydd/Prif Awdiolegydd

Tracy Hughes - Gweinyddydd Mewnblaniadau Cochler

Atgyfeiriad

Rydych chi wedi cael eich atgyfeirio i weld a ydych chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Mewnblaniad Cochlear. Gall y weithdrefn asesu gan Wasanaeth Mewnblaniadau Clywedol De Cymru gymryd rhwng 3 a 9 mis. Mae'r cyfnod hwn o amser yn angenrheidiol i benderfynu a fydddech chi'n elwa o Fewnblaniad Cochlear. Mae'r camau isod yn rhoi enghraifft o'r hyn i'w ddisgwyl o'r broses asesu hyd at yr amser y dylech gael eich llawdriniaeth:

Cam Un – Cam atgyfeirio

Anfonir atgyfeiriad at ein gwasanaeth gan eich meddyg teulu, meddyg ymgynghorol ENT neu adran awdioleg leol yn gofyn am asesiad o'ch addasrwydd ar gyfer mewnblaniad cochlear. Bydd aelod o'r tîm mewnblaniadau cochlear yn adolygu'r atgyfeiriad hwn ac yn anfon llythyr apwyntiad neu os ydym yn credu nad ydych yn addas, byddwn yn ysgrifennu'n ôl at y person a'ch atgyfeiriodd i esbonio pam.



Cam Dau – Cyfnod asesu

Byddwn yn asesu a ydych chi o fewn y meini prawf ar gyfer mewnblaniad cochlear ac yn trafod eich disgwyliau. Ni fydd pawb yn addas ar gyfer mewnblaniad cochlear ac os nad ydych chi, byddwn yn egluro'r rhesymau pam. Os ydych chi'n addas, byddem yn trafod risgiau llawdriniaeth, y camau nesaf yn y broses ac yn rhoi cyfleoedd i chi gyfarfod â defnyddwyr mewnblaniadau cochlear eraill.

Cam Tri – Apwyntiad gyda meddyg ymgynghorol

The consultant will take a medical history and may ask for scans to be performed at a later date such as MRI and CT scans.



Cam Pedwar – Cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol

Dyma lle bydd penderfyniadau ar y cyd rhwngoch chi, y tîm llawfeddygol a'r tîm awdioleg yn digwydd i wneud penderfyniadau terfynol am yr opsiynau mwyaf addas i chi, h.y. pa glust i'w mewnlannu, pa wneuthuriad a model mewnlaniad a lliw'r prosesydd. Ar y diwrnod hwn, byddwch hefyd yn cael ffurflen brechu llid yr ymennydd, a byddwch yn gweld gwasanaethau asesu cyn llawdriniaeth.



Cam Pump – Llawdriniaeth

Anfonir dyddiad ar gyfer eich llawdriniaeth atoch fel arfer drwy e-bost neu neges destun. Unwaith y bydd dyddiad wedi'i gadarnhau, bydd y tîm llawfeddygol yn anfon yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch cyn dyddiad eich llawdriniaeth.

Asesiad Awdiolegol

Cyn cael eich atgyfeirio at y Rhaglen Mewnblaniadau Cochlear byddwch wedi cael diagnosis o golli clyw difrifol neu ddwys. Bydd ein Hawdiolegwyr yn cynnal profion clyw gyda eich cymhorthion clyw a hebddynt. Efallai y byddwch yn cael cymhorthion clyw newydd addas y bydd angen i chi eu gwisgo am 3 mis cyn yr asesiad. Efallai y bydd angen i chi ddychwelyd am brofion pellach i ailasesu eich clyw. O'r profion hyn, gallwn benderfynu a yw cymhorthion clyw yn darparu digon o fudd i chi glywed synau lleferydd neu a fyddai mewnblaniad cochlear yn darparu mwy o fudd.

Gwerthusiad meddygol

Bydd ein Meddyg Ymgynghorol ENT yn ystyried eich hanes meddygol ac achos y colli clyw. Bydd hefyd yn egluro beth sy'n gysylltiedig â'r llawdriniaeth a'r risgiau posibl. Bydd yn trefnu sganiau CT/MRI i wirio cyflwr eich cochlear a'ch nerf clywedol. Bydd y rhain yn cael eu gwerthuso gan y llawfeddyg ENT. Efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth gan weithwyr meddygol proffesiynol eraill.

Cymorth Adsefydlu

Yn ystod y broses asesu hon, byddwn yn darparu gwybodaeth am y weithdrefn mewnblianiad cochlear ac yn darparu cefnogaeth i chi fel teulu. Mae'r penderfyniad ynghylch mewnblianiad cochlear yn benderfyniad ar y cyd rhwng y teulu a'r tîm.

Ein nod yw eich helpu i wneud y defnydd gorau o'ch mewnblianiad a'ch prosesydd. Rydym yn eich helpu i wella eich sgiliau gwranddo a chyfathrebu, ac yn eich helpu i ddod i arfer â synau newydd y byddwch yn eu clywed gyda'ch mewnblianiad a'ch prosesydd.

Cwrdd ag oedolion eraill â mewnblianiad

Gall gweithwyr proffesiynol roi llawer o wybodaeth i chi, ond mae'n hynod fuddiol siarad â phobl eraill sydd wedi cael profiad tebyg o fewnblianiad cochlear. Rydym bob amser yn cynnig y cyfle hwn cyn mewnbliannu.



Cyfarfod
Defnyddiwr
Advanced Bionics



Cyfarfod
Defnyddiwr
Cochlear



Cyfarfod
Defnyddiwr Medel

Disgwyliadau a chefnogaeth

Mae'n rhaid i ni sicrhau eich bod yn ymwybodol o gyfyngiadau Mewnblaniad Cochlear a bod gennych ddisgwyliadau priodol ar gyfer y dyfodol. Nid yw pob un sydd wedi cael mewnbaniad yn cael y budd y gallent hwy neu chi obeithio amdano ac felly mae sicrwydd a chefnogaeth gan deulu a ffrindiau yn bwysig iawn.

Nid yw pob defnyddiwr mewnbaniad yn gallu defnyddio'r ffôn, mwynhau cerddoriaeth na gwyllo'r teledu heb isdeitlau. Gall llwyddiant mewnbaniad amrywio am lawer o resymau. Er enghraifft, y rheswm dros golli clyw, ers faint maen nhw wedi bod yn fyddar, defnydd o gymhorthion clyw, iechyd a llesiant cyffredinol, defnydd o brosesydd ac ymrwymiad i'r rhaglen adsefydlu.

Mae cefnogaeth gan deulu a ffrindiau i gwblhau tasgau gartref yn werthfawr iawn a gall gyflymu cynnydd yn aml.

Byddwch chi bob amser yn ddwys-fyddar. Dim ond os ydym yn teimlo y byddwch yn cael mwy o fudd o fewnbaniad nag o barhau i fod yn ddefnyddiwr cymorth clyw y byddwn yn dewis ymgeisydd ar gyfer y driniaeth Mewnblaniad Cochlear. Mae'r holl ffactorau yn cael eu hystyried wrth wneud asesiad terfynol fel y'i darperir gan Grŵp Mewnblaniadau Cochlear Prydain.

Os cewch eich dewis ar gyfer mewnbaniad, byddwn yn gwbl ymrwymedig i'ch cynnydd yn y dyfodol ac yn datblygu perthynas waith agos gyda chi a'ch teulu/ffrindiau.